

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	24 Ebrill 2018
TEITL	Dogfen Ddrafft Ymchwil Enwau Lleoedd Gwynedd
PWRPAS	Cyflwyno papur ymchwil sy'n amlinellu dyletswyddau a hawliau statudol yr Awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau tai, ystadau, strydoedd a lleoedd Gwynedd.
AWDUR	Elliw Alwyn
SWYDDOG CYSWLLT	Gwenllian Williams (EST: 32469)

1. Cefndir

- 1.1 Mae enwau strydoedd a nodweddion y sir wedi bod yn destun sawl cwyn dros y blynnyddoedd diweddar, a sawl trafodaeth wedi ei chynnal yn y Pwyllgor Iaith am sut y gallwn ddiogelu a gwarchod enwau Cymraeg cynhenid Gwynedd.
- 1.2 Yn sgil y cwynion a'r ymholiadau a dderbyniwyd gan yr Uned Iaith, gwelwyd bod rhywfaint o aneglurder ynghylch beth yn union oedd cwmpas cyfrifoldeb a dylanwad y Cyngor wrth ddiogelu enwau Cymraeg. Roedd sawl adran o'r Cyngor yn gyfrifol am wahanol elfennau, ac yn dal gwahanol wybodaeth. Roedd gwahanol adrannau hefyd yn gyfrifol am rannu gwybodaeth gydag asiantaethau allanol megis y Post Brenhinol a'r Arolwg Ordnans.
- 1.3 Penderfynwyd cynnal darn o waith ymchwil, fyddai'n ceisio cael eglurder ar y mater, ac yn rhoi sylfaen i ni edrych ar sut y gallwn fynd ati i ddiogelu enwau cynhenid ar gyfer y dyfodol.
- 1.4 Nod y ddogfen hon felly yw ennyn gwell dealltwriaeth ymysg aelodau'r pwyllgor o'r swyddogaethau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r mater hwn a'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd yn yr awdurdod.
- 1.5 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi hawliau statudol yr awdurdod a'i bolisiau cyfredol sy'n cwmpasu'r testun hwn.
- 1.6 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi dyletswyddau statudol cyrff perthnasol eraill Cymru sy'n gyfrifol am fathu, arddel a chofnodi enwau lleoedd a pherthynas yr awdurdod â hwy.
- 1.7 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ddeddfau newydd y mae'r mater hwn yn berthnasol iddynt bellach.

2. Yr Hyn a Geisir

- 2.2 Cadarnhad bod gan yr aelodau gwell ddealltwriaeth o ddyletswyddau a gweithdrefnau

gwasanaethau'r awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau o fewn darpariaethau'r deddfwriaethau perthnasol.

2.3 Cadarnhad bod yr aelodau o'r farn bod gwasanaethau perthnasol yr awdurdod yn hyrwyddo ac yn hybu hyd orau ei allu y defnydd o enwau Cymraeg sy'n nodweddiadol o dreftadaeth gynhenid Gwynedd.

2.4 Arweiniad y pwyllgor yng nghyswllt datblygu'r gwaith o fewn yr awdurdod, ymchwilio ymhellach neu'r angen i gyflwyno a mabwysiadu polisi swyddogol newydd.

3. Ystyried y camau nesaf

3.1 Bydd angen trosglwyddo canfyddiadau'r ymchwil a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad yn gamau gweithredu pendant. Gellid cyflwyno'r rhain ar ffurf polisi neu ganllawiau i staff.

3.2 Dylid sicrhau bod ymgynghori gyda'r adrannau a'r swyddogion perthnasol cyn ymgorffori unrhyw bolisi neu ganllaw er mwyn sicrhau bod yr hyn a geisir yn ymarferol ac yn bosib o fewn adnoddau dynol ac ariannol presennol y Cyngor.

3.3 Os bydd polisi yn cael ei lunio, bydd angen iddo ddilyn y drefn arferol a chael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor.

4. Argymhellion

4.1. Gofynnir i'r aelodau ystyried yr adroddiad drafft a'r wybodaeth a gyflwynir ac ystyried beth yw'r camau nesaf. A oes angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn, ac a oes unrhyw gwestiynau heb eu hateb?